COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 26 MEDI 2022, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd P Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | N Clarke | C Davies | P W Jenkins |
| W J Kendall | J E Pratt | G Walter | I Williams |
| MJ Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M J Evans a/ac MJ Kearn

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Richard Hughes | Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Awen |
| Lisa Jones | Arweinydd Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ac Arian Adfywio |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Ieuan Sherwood | Rheolwr Grwp Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd |
| Delyth Webb | Rheolwr Grwp Adfywio Strategol |

7. DATGANIADAU O FUDDIANT

Y Cynghorydd Norah Clarke – Datgan buddiant rhagfarnus gan ei bod wedi bod yn wirfoddolwr gyda'r Elusen Credu.
Y Cynghorydd Colin Davies – Datgan buddiant personol gan ei fod ynghlwm wrth gynnig SPF yn y Fro.
Y Cynghorydd Ian Williams – Datgan buddiant personol fel Cynghorydd Tref Pen-y-bont ar Ogwr, rhag i adnewyddu a chyllid y dref gael eu trafod.

8. CYMERADWYO COFNODION

Nododd y Cynghorydd Norah Clarke wrth drafod pwynt 5b yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 18 Gorffennaf 2022, fod PRIF yn golygu Porthcawl Resort Investment Focus, nid Forecast.

PENDERFYNWYR:

Y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 dyddiedig 16 Chwefror 2022 ac 18 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir a gwirioneddol.

9. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DEYRNAS UNEDIG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yr adroddiad ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF) sef yr hyn yr oedd Llywodraeth y DU wedi'i roi ar waith i ddisodli Cronfa Fuddsoddi Strwythurol Ewrop (ESIF), yn dilyn y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (EU) ar 31 Ionawr 2020. Nododd bod dyraniad Pen-y-bont hyd yma yn £23 miliwn a oedd yn rhaid ei wario dros dair blynedd, ac roedd oddeutu hanner yr hyn yr oeddent wedi arfer ei gael gan yr EU. Felly, roedd creu'r cynllun buddsoddi wedi bod yn heriol. Roedd hi'n bwysig i'r Pwyllgor ddeall ei fod ar gyfer mentrau ledled y Sir,

roeddent wedi gweithio gyda'r trydydd sector a'r colegau er mwyn creu'r cynllun. Dylent fod â phenderfyniad ar y cynllun buddsoddi erbyn canol mis Hydref.

Nododd Rheolwr Grŵp yr Economi, Cyfoeth Naturiol a Chynaliadwyedd mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi diweddariad ar waith Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a throsolwg yn Atodiad Un o'r cynigion a allai gael eu cyflwyno. Dywedodd bod adnodd penodol ochr yn ochr â'r flaenoriaeth Pobl mewn Sgiliau yn benodol ar gyfer ymyrraeth ledled y DU o'r enw Multiply. Nod Multiply oedd gwella sgiliau rhifedd oedolion yn y rhanbarth.

Eglurodd bod awdurdodau lleol wedi'u gwahodd i gydweithio a chreu un cynllun buddsoddi lleol ar gyfer y rhanbarth. Yn rhan o hyn, cytunwyd y byddai Rhondda Cynon Taf yn cymryd rôl awdurdod lleol arweiniol ar gyfer y rhanbarth. Golyga hyn y byddai gan Lywodraeth y DU un cytundeb cyllid yn uniongyrchol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac y byddai ganddyn nhw gytundebau wedyn gyda phob awdurdod yn y rhanbarth. Roedd peth hyblygrwydd o ran sut y byddai'n cael ei gyflawni mewn Canllawiau gan Lywodraeth y DU, gydag opsiynau ar gyfer cyllid grant at ddibenion caffael, comisiynu a darpariaeth fewnol.

Nododd er nad oedden nhw fel Awdurdod angen datblygu cynllun buddsoddi, roedd hi'n bwysig datblygu'r wybodaeth yn Atodiad Un a oedd yn nodi'r blaenoriaethau a'r lleoedd gorau i ddyrannu arian y gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd yn awyddus i bwysleisio bod y cynigion wedi'u datblygu heb ganllawiau manwl am y gronfa gan Lywodraeth y DU, ac yn hynny o beth, gallai newid yn enwedig gan fod rhai o'r gweithgareddau arfaethedig, modelau cyflawni a gwerthoedd cyllid yn debygol o amrywio. O ran cyflawni, roedd y Cabinet wedi cytuno ar strwythur llywodraethu â dwy haen, partneriaeth economaidd a fyddai'n denu partneriaid aml-sector o bob rhan o'r Sir, y rhanbarth a Chymru, a bwrdd rhaglen economaidd mewnol. Eglurodd er bod ganddynt ddyraniad cyffredinol o £23 miliwn, roedd £3.99M o hwnnw wedi'i ddyrannu i'r Rhaglen Multiply, a oedd yn gadael £19.1 miliwn ar gyfer yr hyn a oedd y cael ei ystyried yn weithgarwch cronfa ffyniant gyffredin craidd dan dair thema. Roedd Llywodraeth y DU yn awgrymu y gellid rhannu'r cyllid i ddyraniadau blynyddol sefydlog a oedd cyfwerth ag oddeutu 12% yn y flwyddyn gyntaf, 24% yn yr ail flwyddyn, a 64% yn y drydedd flwyddyn. Doedd dim gwybodaeth o ran a oedd modd cario cyllid drosodd, neu a oeddent am weld dyraniadau aml-flynyddol. Roedd hyn yn rhywbeth roeddent yn frwd yn lobio ar ei gyfer, yn ogystal ag archwilio mecanweithiau gydag awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth a Llywodraeth y DU o ran sut gellid datblygu peth hyblygrwydd o'i gwmpas.

Nododd y gellid defnyddio 4% o'r dyraniadau at ddibenion gweinyddol. Roedd y proffil presennol a oedd wedi'i nodi yn cynnwys y 4% hwnnw gan Multiply, a dyraniad gan Gronfa Ffyniant a Rennir Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer cyflawni prosiectau cydweithwyr ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd, gan olygu bod oddeutu £2.5 miliwn dros y proffil. Ym mis Medi, roedd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau wedi cyflwyno pwysau twf yn rhan o broses MTFS 2023-2027 i geisio bodloni'r diffyg mewn cyllid i sicrhau y gellid cyflawni'r holl weithgareddau. Pe byddai'r rhaglen yn parhau i fod wedi'i or-ddyrannu, yr arweinwyr perthnasol ym mhob Adran fyddai'n gyfrifol am nodi'r bylchau hynny. Os na fyddai hyn yn bosibl, dim ond y cyllid a ddyrennir fyddai'r cyllid ar gael, oherwydd doedd dim modd mynd y tu hwnt i'r cyllidebau a oedd ar gael. Crynhodd trwy ddweud mai Argymhelliad yr adroddiad oedd i'r Pwyllgor nodi'r cynnwys ochr yn ochr ag Atodiad Un.

Gofynnwyd pam fod y dyraniad o £330k i Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd (CCRD) wedi'i gytuno, beth fyddai Pen-y-bont yn ei dderbyn o'r cyllid hwn a pham nad oedd modd ei ariannu o gyfraniadau yr oedd yr Awdurdod a'r naw Awdurdod partner arall eisoes wedi'u rhoi.

Gan gyfeirio at yr Atodiad, nododd Aelodau er ei fod yn llawn bwriadau da, doedd fawr ddim manylion e.e. doedd hi ddim yn glir beth oedd y farchnad werdd neu sero net a

drafodwyd yn ei chynnwys. Yn olaf, o ran y llywodraethu dwy haen, gofynnodd Aelodau pam nad oedd unrhyw sôn am Gynghorau Tref a Chymuned. Gofynnwyd beth fyddai eu rôl nhw o ran llywodraethu a'u gallu i helpu i gyflawni.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Rheolwr Grŵp, Economi, Cyfoeth Naturiol a Chynaliadwyedd bod elfen fach o £330k yn mynd i CCR gan fod elfen ranbarthol ar y Cais Ffyniant Gyffredin, ac roedd cydnabyddiaeth er bod y gronfa'n ymwneud ag anghenion lleol a chyflawni, roedd rhai pethau a oedd yn gallu cael eu cyflawni'n well yn rhanbarthol ac ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol. Byddai CCR yn edrych ar gau rhai bylchau, drwy ddod â'r cyllid at ei gilydd a chael Rhaglen Ranbarthol effeithiol. Doedd dim modd cynnwys manylion pob cynllun unigol yn yr adroddiad, a chrynodebau gweithredol oedd yr atodiadau, er bod achosion manwl y tu ôl i bob un. Y bwriad oedd cyflwyno i'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned, gan ofyn i Aelodau'r Fforwm sut roedden nhw'n meddwl y byddai ymgysylltiad eu sefydliad yn gweddu orau i gyflawniad y rhaglen.

Cyfeiriodd Aelodau at y brig-doriad (top slice) gan nodi ei fod yn swm cyfatebol o arian os oedd wedi'i luosi â 10 i gyflawni'r fargen, ac ym mharagraff 8.2, Tabl 1, roedd canran y dyraniad yn nodi dyraniad rhanbarthol o 8.3%, ond roedd cyfraniad yr Awdurdod at Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn 9.4166%. Gofynnwyd am y gwahaniaeth o 1%? Gofynnwyd hefyd pam roedd canran dyraniad Pen-y-bont yn 8.3% o'r dyraniad rhanbarthol, er bod yr Awdurdod Gweinyddol yn derbyn 16.2%.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn Gynllun Llywodraeth y DU a bod Bargen Ddinesig CCR a'u cyfraniad yn bethau hollol wahanol ac amherthnasol i hyn. Llywodraeth y DU oedd wedi gosod y dyraniad.

Gofynnodd Aelodau am ragor o fanylion ynghylch cymorth digwyddiadau Twristiaeth yn y Sir a gwaith rheoli cyrchfan a marchnata lleol o ran Pen-y-bont ar Ogwr.

Nododd Swyddogion y byddai'r gronfa ddigwyddiadau yn adnodd i gefnogi trefnwyr digwyddiadau ac i wella a datblygu digwyddiadau newydd o fewn y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â gwella gweithgareddau presennol i ddenu rhai newydd. Eglurwyd bod yr ochr rheoli cyrchfan yn gweithio yn rhan o'r elfen farchnata, cysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo'r cyrchfan yn ogystal â chyfleoedd i weithio ledled y busnesau gwahanol i ddatblygu cynnyrch a phecynnau newydd. Byddai Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn bo hir er mwyn iddynt ei ystyried.

Gofynnodd Aelodau ar ba sail oedd yr Awdurdod yn cael 8.3% o'r dyraniad rhanbarthol, pwy oedd wedi gwneud y penderfyniad hwnnw a phwy gyflwynodd yr achos. Nodwyd y byddai 8.3% yn dro gwael gan Lywodraeth y DU os mai 9.4% oedd canran Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd.

Eglurodd swyddogion y metrigau a ddefnyddiodd Llywodraeth y DU wrth bennu'r dyraniad: roedd 40% o'r penderfyniad ar sail 'per capita'; defnyddiwyd 30% i ddefnyddio'r un mynegai ar sail anghenion a ddefnyddiwyd ar gyfer y Gronfa Adnewyddu Cymunedol, a; cafodd 30% ei ddyrannu'n defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i greu cyfanswm y dyraniad a nodwyd.

Gan droi at dudalen 26 yn yr adroddiad, gofynnodd yr Aelodau beth yn union roedd y gronfa yn ei roi i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, oherwydd roedd wedi'i nodi bod angen gwella.

Nododd y Rheolwr Grŵp, Economi, Cyfoeth Naturiol a Chynaliadwyedd nad oedd manylion fesul Ward am yr arian am ddau reswm: roedd yn bennaf yn gronfa ar sail refeniw, a, chynilo ar gyfer y cynigion cyfalaf, y byddai pob un yn digwydd ledled Tîm y

sir yn gyffredinol. Er y byddai manylion o ran faint o fusnesau o'r Canol Tref a oedd wedi gwneud cais am y gronfa ar gael, ar y pwynt hwnnw, nid oedd wedi'i ddyrannu.

Gofynnodd Aelodau am eglurder ar sail a llinach sut roedd pethau'n mynd drwy Awdurdod Rhondda Cynon Taf fel yr Awdurdod Arweiniol, o'r pwynt cyflwyno'r cais, pwy sy'n gwneud y cais a rôl yr Awdurdod gweinyddu.

Nododd Swyddogion bod cytundeb cyfreithiol drafft gan Rhondda Cynon Taf wedi dod i law a oedd yn nodi sut y byddai'r hawliadau a'r prosesau adrodd yn gweithio, a phwy fyddai'n atebol. Eglurwyd bod penderfyniadau ar y dyraniad a'r rhaniadau ledled y rhanbarth yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn gyntaf, ac yna o fewn y rhanbarth, a bod yr awdurdodau lleol eu hunain yn cytuno pwy ddylai fod yn Awdurdod Arweiniol.

Gofynnodd Aelodau pa mor hyderus oedden nhw'n gallu bod y gallent gyflawni £23 miliwn mewn dwy a hanner i dair blynedd gyda rhaglen mor amrywiol.

Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y byddai'n heriol iawn gan y byddai'r £23M yn cael ei rannu i flynyddoedd 1, 2 a 3, ac ni fyddai penderfyniad yn cael ei wneud tan fis Hydref. Byddai angen gwario'r canran gofynnol erbyn mis Ebill nesaf. Er nad oedd ganddynt yr adnoddau yn y Gyfarwyddiaeth, roedd opsiynau'n cael eu harchwilio o ran symud Swyddogion o weithgareddau eraill i hyn, i sicrhau'r defnydd gorau posibl o bob adnodd. Lle bo parhad o ran refeniw, roedd hyder, ond gyda refeniw a chyfalaf newydd byddai heriau. Fodd bynnag, roedd Swyddogion wedi ymrwymo i sicrhau y byddai'n gweithio a byddai symud o ddyraniad blynyddol sefydlog i ddyraniad aml-flynyddol yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

1. Dylid mynegi pryder ynghylch y risgiau ynghlwm wrth gyllid annigonol i gyflawni'r prosiect a chyflawni cynigion y prosiect o fewn y cyfnod a nodwyd.

2. Dylid mynegi pryder pellach o ran y diffyg adnoddau ac arbenigedd yn y Gyfarwyddiaeth, a'i gallu i ymdopi â'r gwaith ychwanegol ynghlwm wrth y prosiect. Nid oedd Aelodau o'r farn ei bod hi'n briodol symud staff o rolau a phrosiectau eraill, gan y byddai hyn yn wrthgynhyrchiol. Nododd y Pwyllgor hefyd bod y dirwedd o ran Awdurdodau Lleol yn gwneud ceisiadau am gyllid yn newid, gyda therfynau amser yn fyr iawn a'r meini prawf yn cael eu cyflwyno'n hwyr yn y broses, sy'n golygu bod gan yr Awdurdod fawr ddim amser i ddatblygu a chreu cheisiadau sylweddol. Felly argymhellodd y Pwyllgor bod angen blaenoriaethu adnoddau yn y gyfarwyddiaeth Cymunedau i sicrhau nid yn unig ei fod yn gallu bwrw ymlaen â'r prosiect hwn yn llwyddiannus, ond i sicrhau bod seilwaith ar waith i alluogi'r Awdurdod i wneud cais a manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd cyllid. Yn ogystal â datblygu cynllun strategol, argymhellodd yr Aelodau y dylid drafftio prosiectau posibl o dan hyn. Felly, pan mae'r cyfle'n dod i'r amlwg, byddai ganddynt sail am y cais eisoes.

3. Dylid mynegi pryderon difrifol ynghylch elw gwael Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn eu dyraniad o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) a'r annhegwch o ran y dull cyllido y tu ôl i hyn. Felly, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu'n uniongyrchol i'r rhai yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am SPF i nodi materion gan gynnwys:

    a. Y ffaith nad yw'r dyraniad yn ystyried bod Pen-y-bont yn un o'r ardaloedd sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru;
    b. Mae'r cyfnod prin o amser a gafodd yr Awdurdod i greu cynigion a defnyddio'r gronfa a bodloni ei anghenion yn afresymol, ac o bosibl yn rhoi'r prosiect a chyllid y cyhoedd mewn perygl.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r llythyr hwn gael ei anfon at y ddau AS lleol; Dr Jamie Wallis a Chris Elmore.

Gofynnodd y Pwyllgor:

1. I gael gweld copi o unrhyw gyflwyniad i'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar gynigion Cynllun Buddsoddi Lleol Pen-y-bont ar Ogwr.
2. Am ragor o wybodaeth ar sut caiff hawliadau eu prosesu gan RCT fel yr Awdurdod Arweiniol yn ogystal â manylion ar y broses adrodd ac atebolrwydd.
3. Rhagor o fanylion ar y cynigion prosiect pan fyddant ar gael, gan gynnwys manylion am gyllid o fewn pob cynnig.
4. Eglurder o ran a fyddai modd cadw peth o'r cyllid pe na byddai'r allbynnau fel y'i nodwyd yn y cynigion yn cael eu cyflawni.

10. <u>PROSIECTAU BLAENORIAETH Y GRONFA FFYNIANT BRO</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yr adroddiad gan egluro mai ail hanner Agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU oedd y gronfa, a oedd wedi'i gyhoeddi yn adolygiad gwariant Llywodraeth y DU yn 2020. Roedd yn rhaglen o waith cyfalaf yn bennaf, gydag ychydig o refeniw hyd at 2025, gyda dyraniad o £4 biliwn ledled y DU, a £800 miliwn ar gyfer Cymru. Nododd y gallai pob awdurdod lleol gyflwyno cais am hyd at £20 miliwn ar gyfer pob etholaeth AS - roedd dau ym Mhen-y-bont; Pen-y-bont ac Ogwr. Yn ail, gellid cyflwyno cais trafnidiaeth fawr am hyd at £50 miliwn. Roedd yn gronfa gyfalaf gyda meini prawf penodol iawn, megis cefnogi asedau diwylliannol, adfywio canol trefi a threfi a chymunedau, a thrafnidiaeth. Nododd bod rhaid darparu 10% arian cyfatebol ar gyfer pob cais, felly byddai angen sicrhau cyllid gan naill ai trydydd parti, cyllid y Loteri Genedlaethol neu'r Cyngor ei hun. Roedd dau fid wedi'u cyflwyno; un er mwyn adnewyddu'r Pafiliwn ym Mhorthcawl, ac un ar gyfer Pont Ffordd Penprysg ym Mhencoed i waredu'r groesfan a gosod pont ffordd a llwybr cerdded newydd.

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp, Economi, Cyfoeth Naturiol a Chynaliadwyedd drosolwg o'r adroddiad, ac ar ôl hynny, trafodwyd y canlynol:

Gofynnodd Aelodau a fyddai £20M yn ddigon ar gyfer y prosiect adnewyddu'r Pafiliwn, o ystyried prisiau cynyddol. Os na, o ble byddai angen i'r arian ychwanegol ddod, ac a oedd Cadw'n awyddus ac yn derbyn yr addasiadau arfaethedig i'r cynllun.

Nododd Swyddogion bod problemau annisgwyl yn gallu dod i'r amlwg wrth ddechrau gwneud gwaith ar hen adeiladau, fodd bynnag, roedd gwersi wedi'u dysgu o gynlluniau blaenorol ac roedd wedi'i gydnabod bod llawer o gynlluniau wrth gefn o ran y cynllun hwn, a llawer o fesurau i wneud yn iawn am risgiau pe byddai'r rheiny'n dod i'r amlwg. Pe byddai unrhyw amgylchiadau annisgwyl neu gostau cynyddol, byddai angen ail-edrych ar y dyluniad a pheirianneg eto, gan nad oedd cyllid ychwanegol i wario ar yr adeilad. Drwy beirianneg o werth, byddent yn edrych ar yr adeilad a pha waith all gael ei wneud tuag at ddiwedd y cynllun pe byddai rhagor o arian yn dod ar gael. Nododd y Rheolwr Grŵp Adfywio Strategol bod Cadw yn ymwybodol o'r adeilad, a'u bod yn derbyn y newidiadau yn yr un modd â Thîm Cadwraeth a Dylunio yr Awdurdod ei hun.

Nododd yr Aelodau bryder y gallai'r Pafiliwn fod ar gau am hyd at ddwy flynedd pe byddai'r prosiect yn mynd yn ei flaen. Gofynnwyd am opsiynau o ran sicrhau bod rhai digwyddiadau'n gallu cael eu cynnal ym Mhorthcawl.

Atebodd y Swyddogion drwy ddweud y byddai hynny'n amodol ar yswiriant risg ac atebolrwydd y contractwr ar ôl dechrau ar y gwaith adeiladu, felly er ei fod wedi'i ystyried, ni fyddai'n bosibl caniatáu defnydd o'r adeilad bryd hynny. Fodd bynnag,

byddant yn gweithio gydag Awen sy'n gweithredu'r cyfleuster o ran sicrhau lleoliadau eraill.

Eglurodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen mai'r flaenoriaeth fyddai'r defnyddwyr lleol bob tro, ac y byddant yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Cyngor i geisio gweld beth maen nhw'n ei wneud, gyda chyfuniad posibl o weithio ag ysgolion a sefydliadau eraill i weld beth all gael ei roi ar waith i gefnogi a sicrhau bod y celfyddydau'n parhau ar lefel gymunedol hefyd.

Gofynnodd Aelodau o ran cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y Pafiliwn, a oedd unrhyw bosibilrwydd o gynnal gwneud dichonoldeb ynghylch adeilad arall rhywle ym Mhorthcawl, e.e. cae chwarae Rest Bay neu rentu gae neu ddefnyddio maes parcio, yn dibynnu ar beth fyddai ei bwrpas o ran adfywio. Roedd diddordeb mewn gweld unrhyw adroddiad neu ddeilliannau, os oedd y trafodaethau hynny wedi'u cynnal, gan fod Aelodau o'r farn y gellid creu incwm tra bod y prosiect Pafiliwn yn mynd rhagddo. Awgrymwyd hefyd y dylid archwilio i ddulliau eraill, megis agwedd budd cymunedol y contract caffael a Chytundeb Adran 106.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a'r Aelod Cabinet dros Adfywio bod trafodaethau wedi bod ar waith ynghylch archwilio lleoliadau ond yn anffodus, doedd dim modd defnyddio arian o'r gronfa Ffyniant Bro ar gyfer gwaith dichonoldeb ar y cam hwn, gan fod angen gwario'r cyllid i gyd ar y prosiect ac roedd proffil gwariant wedi'i gyflwyno.

Gofynnodd Aelodau a fyddai'r nifer o seddi a ragwelwyd yn cynyddu unwaith i'r prosiect Pafiliwn ddod i ben, ac a fu unrhyw ystyriaeth i ddarparu cyfleusterau parcio ychwanegol ar y safle neu ger y safle. Os na, gallai hynny fod yn rhywbeth i'w ystyried a'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau nad oedd unrhyw gynlluniau ar y gweill i gynyddu nifer y lleoedd parcio ar y safle, ond nid oedd yn credu eu bod yn gwaredu'r cyfleusterau parcio presennol ar y safle. Eglurodd eu bod wedi comisiynu astudiaeth parcio ar gyfer Porthcawl a oedd yn rhan bwysig o'r adfywio.

Gofynnodd Aelodau am eglurder ar yr un cais fesul ardal AS, a phryd y byddai'r cylch cyllid nesaf. Roeddent hefyd yn ymwybodol bod Neuadd Tref Maesteg wedi profi rhai cymhlethdodau a oedd yn golygu cynnydd i gostau a therfynau amser, felly roeddent am wybod a fyddai cyfnod o amser pan fyddai'r ddau ddim ar gael, neu'n dibynnu ar y cais yn llwyddo, a fyddai'r Pafiliwn Grand yn aros ar agor nes i Neuadd Dref Maesteg ail-agor.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod angen i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2025, felly roedd yn tybio y byddai'r cylch nesaf yn dechrau bryd hynny, ond y byddai ar agor mae'n siŵr yn yr ychydig o flynyddoedd nesaf er mwyn gallu prosesu ymlaen llaw. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen y byddai Neuadd Dref Maesteg yn agor cyn i'r Pafiliwn gau, oherwydd pe bydden nhw'n llwyddiannus, byddai angen cadarnhau'r dyluniadau, cyflwyno dyluniadau i gael caniatâd cynllunio, mynd allan i dendr, dewis contractwr ac aros iddynt gyrraedd y safle.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a'r Rheolwr Grŵp ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu'r cynnig ar gyfer Pont Ffordd Penprysg, gan egluro eu bod wedi gwneud cais am o leiaf £25 miliwn i'r Gronfa Ffyniant Bro i osod y bont. Cafwyd dyluniadau cychwynnol ar gyfer y bont, ac roeddent wedi dechrau mynd drwy'r broses Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn ogystal ag ymgynghori cyhoeddus. Roedd yn gynllun cymhleth gan y byddant yn disodli hen seilwaith o oes

Fictoria, gosod pont fodern a gwaredu’r bont bresennol ym mhen yr orsaf drenau o Bencoed, a disodli hwnnw gyda phont hygyrch, teithio llesol ac addas i gerddwyr.

Mynegodd yr Aelodau bryder o ran a fyddai £25 miliwn yn ddigon ar gyfer y prosiect, a fyddai wedi dod i ben erbyn 2025 a’r ffaith nad oedd opsiwn i gamu’n ôl oherwydd natur y prosiect. Gofynnwyd hefyd a oedd unrhyw ffynonellau cyllid eraill a all gael eu harchwilio.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y byddent yn caniatáu i fid trafnidiaeth fynd ymlaen i 2026 mewn amgylchiadau eithriadol. Nododd y gallai’r holl gostau fod yn fwy na’r uchafswm cais, ond nad oedd ganddynt ddyluniad llawn wedi’i gostio, ac roedd agweddau a allai effeithio’r swm o gyllid a fyddai angen. Nododd ei fod yn brosiect cymhleth a bod llawer o bethau anhysbys ar hyn o bryd, ond y byddent yn ddibynnol iawn ar bartneriaid eraill ac asiantaethau partner i chwarae rhan, gan y byddai sicrhau’r seilwaith yn cael effaith ranbarthol.

O ran yr elfen ranbarthol, holodd Aelodau a oedd cais wedi’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Network Rail am gyllid. Er eu bod nhw’n llwyr gefnogol o’r prosiect, roeddent yn awyddus i gael sicrwydd na fyddai’r groesfan yn achosi problemau traffig yn y lonydd cefn wrth ei waredu, yn enwedig drwy Hendre a Coety.

Nododd y Swyddogion o ran yr elfen ranbarthol, roedd Trafnidiaeth Cymru a Network Rail wedi bod ynghlwm wrth y grŵp llywio a sefydlwyd, ac yn cefnogi’r prosiect, ond ni fyddant yn cynnig cyllid. Er mwyn bwrw ymlaen â’r prosiect, roedd ganddynt gyllid gan Brifddinas-ranbarth Caerdydd (CCR). Doedden nhw ddim yn gwybod beth fyddai’n digwydd gyda chyllid CCR, Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, ond byddant yn chwilio am raglenni cyllid wrth iddynt ddod i’r amlwg. Wrth i’r prosiect ddod yn ei flaen gan arwain at ragor o sicrwydd, byddai rhagor o gyfle i ddenu cyllid ychwanegol posibl drwy ddulliau eraill. O ran sicrwydd am draffig, cyn edrych ar gynigion datblygu i’r dyfodol, roedd rhaid cael syniad o’r effaith, ni fyddai’n bosibl gwybod hyn nes bod y bont newydd wedi’i osod. Fodd bynnag, roedden nhw’n cadw llygad arno ac yn cydnabod y byddai angen gwneud darn o waith arall ar hyn gyda’r prosiect hwn.

Gofynnodd Aelodau a fyddai modd cynnwys cynnig ar gyfer etholaeth Ogwr yn y cylch nesaf o gynlluniau a chyllid?

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau eu bod wedi creu tri chynllun ar gyfer etholaeth Ogwr dros y 12 mis diwethaf, ond yn anffodus nid oedd y Swyddogion Cronfa Ffyniant Bro o’r farn bod unrhyw gynllun yn bodloni’r meini prawf. Roedd hi eisiau gwneud yn glir eu bod wedi gweithio’n galed, a’i fod wedi bod yn siom mawr i’r Tîm.

Gofynnodd Aelodau a oedd gwers wedi’i dysgu o ran bod angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod â chynllun buddsoddi strategol cynhwysfawr, fel bod dyheadau a phrosiectau yn barod ac yn addas pan fyddai cyfle’n codi?

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau ei bod wedi bod yn anodd oherwydd pan gyhoeddwyd y Gronfa Ffyniant Bro, ni ryddhawyd unrhyw feini prawf neu ganllawiau manwl, doedden nhw ddim yn nabod yr unigolion ynghlwm ac roedden nhw’n dîm newydd, felly roedd rhaid iddynt weithio ar sail cynlluniau blaenorol. Nododd bod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn rhagorol am ysgrifennu ceisiadau cyllid, felly nid oedd y broblem oherwydd diffyg sgiliau ysgrifennu, ond oherwydd y diffyg meini prawf a oedd ar gael. Cyfeiriodd at y Strategaeth 2030 a’r Strategaeth Datblygu Economaidd a oedd gerbron y Cyngor ym mis Mawrth, a oedd yn cynnwys nifer sylweddol o brosiectau, felly roedden nhw’n gwybod beth oedd y prosiectau ac yn awyddus i symud ymlaen â nhw a sicrhau eu bod yn barod, ond yn anffodus roedd y Tîm eisoes yn brysur yn datblygu beth

oedd ar gael o'u blaenau nhw. Fodd bynnag, roedd hi'n gobeithio y bydden nhw mewn sefyllfa well yn y dyfodol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

1. Yn debyg i'r trafodaethau ynghylch SPF, dylid mynegi pryder ynghylch y terfynau amser byr o ran y ceisiadau i'r Gronfa Ffyniant Bro, yn ogystal â'r terfynau amser i gyflawni'r prosiectau, yn enwedig os na chaniateir unrhyw estyniad. Roedd Pont Reilffordd Penprysg yn risg benodol oherwydd lefel y gwaith y byddai ei angen er mwyn dod i ben.

2. Roedden nhw'n llwyr gefnogol o'r gwaith ynghylch trefniadau amgen neu dros dro a lleoliadau yn ystod y cyfnod pan fyddai'r Pafiliwn Grand ym Mhorthcawl ar gau. Fodd bynnag, rhoddwyd pwyslais penodol ar sicrhau na fyddai Porthcawl yn colli nifer yr ymwelwyr a refeniw. Gofynnodd Aelodau am adborth ar y cynlluniau hyn ac am fesurau lliniaru pan fyddent ar gael, ond ymhellach i hyn, argymhellwyd y dylid cynnal astudiaeth o ddichonoldeb yn rhan o'r gwaith hwn o ran gosod cyfleuster dros dro ym Mhorthcawl tra bod y Pafiliwn ar gau. Cynigiwyd defnyddio'r elfen Adran 106 o'r contract datblygu o ran lleihau effaith cau'r adeilad ar y gymuned.

Gofynnodd y Pwyllgor:

1. Terfyn amser o ran cwblhau prosiect Neuadd Dref Maesteg. Codwyd pryderon ynghylch a fyddai'r Neuadd Dref wedi dod i ben cyn i'r Pafiliwn gau ar gyfer ailddatblygu. Gofynnodd Aelodau hefyd am wybodaeth o ran beth oedd hyn yn ei olygu i refeniw Awen.

2. Gwybodaeth bellach (gan gynnwys astudiaeth o ddichonoldeb posib a nodwyd yn yr argymhellion uchod) am unrhyw gyfleuster dros dro arfaethedig a threfniadau amgen tra bod y Pafiliwn ar gau.

Mynegwyd pryderon ynghylch cyllid a chyflawniad y prosiect Pont Reilffordd Penprysg, a'r effaith bosibl o draffig yn yr ardal. Gofynnodd y Pwyllgor am bapur briffio unwaith y byddai'r prosiect wedi'i gymeradwyo, gan nodi'r cynlluniau a fyddai ar waith i fonitro a lleddfu effaith traffig ar ddwy ochr y bont arfaethedig. O ran parcio ym Mhorthcawl yn gysylltiedig â phrosiectau ailddatblygu megis y Pafiliwn Grand a'r nod o gynyddu nifer yr ymwelwyr i'r ardal, cafodd y Pwyllgor wybod am astudiaeth Parcio sydd ar waith ym Mhorthcawl yn rhan o'i gynlluniau Adnewyddu a Chreu Lleoedd. Gofynnodd y Pwyllgor iddynt fod ynghlwm wrth ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Strategol ar gyfer Porthcawl, a bod hyn yn cael ei ychwanegu at Flaenraglen waith y Pwyllgor.

11. <u>DIWEDDARIAD AR Y BLAENRAGLEN WAITH</u>

Ar ôl ystyried yr adroddiad ar Ddiweddariad y Blaenraglen Waith, gofynnodd y Pwyllgor i'r eitemau canlynol gael eu hychwanegu:

1. Diweddariad ar gynnal a chadw Priffyrdd.
2. Diogelwch cerddwyr mewn pentrefi hanesyddol.

<u>Trwyddedu Tacsis</u>

Gwnaeth y Pwyllgor:

- fynegi pryder bod tacsis ond yn gallu defnyddio un orsaf MOT ag achrediad DVSA, ac os yw'r cerbyd yn methu, does dim modd gwneud y gwaith trwsio yn

fanno. Mae'n rhaid trefnu apwyntiad mewn modurdy arall i wneud y gwaith, ac yna threfnu i fynd i'r orsaf MOT unwaith eto am ffi ychwanegol a phrawf arall, a all arwain at dacsis yn gorfod bod oddi ar y ffordd am gyfnod hirach, costau uwch a cholled sylweddol o ran incwm. Hefyd, mae'r modurdy'n brysur iawn gyda phrofi cerbydau Heddlu De Cymru a BCBC.
- gyfeirio at Awdurdodau Lleol eraill, e.e. Caerdydd, yn caniatáu'r defnydd o unrhyw orsaf MOT ag achrediad DVSA sy'n gwneud pethau'n haws i weithredwyr ac yn fwy teg i orsafoedd MOT ag achrediad DVSA.
- mynegi pryder ynghylch yr effaith bellach y gallai hyn fod yn ei gael yn lleol ynghylch y cyfnod byr y mae tacsis ar gael yn y Fwrdeistref Sirol yn gyffredinol, ac yn enwedig yn hwyr yn y nos.
- gofyn sut roedd perfformiad/dibynadwyedd tacsis yn cael ei fonitro drwy adnewyddu trwyddedau neu fel arall, a sut roedd yr Awdurdod yn adolygu achosion o ganslo, achosion o ganslo'n hwyr yn y nos, argaeledd ar ôl oriau, a beth oedd yn cael ei wneud i alluogi gwelliant a fflyd tacsis dibynadwy.
- cyfeirio'r pwnc i'r Pwyllgor Trwyddedu er ystyriaeth a gweithredu.

<u>Adroddiad Adnewyddu Porthcawl</u>

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad ar Adnewyddu Porthcawl a oedd wedi'i drefnu ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 ar 20 Chwefror 2023, gan wneud cais i gael clywed cefndir y prosiect Cosy Corner yn rhan o gwmpas yr adroddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor i gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol gael gwahoddiad i ddod i graffu'r adroddiad.

- Croeso Cymru
- Credu Charity Limited, o'r enw Community Interest Company gynt,
- Porthcawl Harbourside

<u>PENDERFYNWYD</u>: Cymeradwyodd y Pwyllgor y Blaenraglen waith yn Atodiad A, yn amodol ar yr ychwanegiadau a'r ceisiadau uchod. Nodwyd y Blaenraglen waith a byddai unrhyw ddiweddariadau o'r Pwyllgor yn cael eu hadrodd yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd hefyd y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B.

12. <u>EITEMAU BRYS</u>

Dim